

Croeso i /  
*Welcome to*  
Ysgol Gynradd  
Groes-wen  
*Primary*  
*School*

Gyda'n gilydd yn gryfach

Together stronger



*Llawlyfr rhieni y Feithrin*

*Handbook for Nursery parents*



# Croeso / *Welcome*

Croeso cynnes i deulu a chymuned Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School.

Mae'r diwrnod mawr wedi cyrraedd, mae eich plentyn yn cychwyn ar ei d/thaith addysgol ac anelwn at wneud y pontio o'r cartref i'r ysgol mor slic â phosib iddyn nhw ac i chi gan obeithio bydd y llyfryn hwn o fudd ac yn tawelu meddwl.

Mae profiadau cyntaf eich plentyn yn yr ysgol yn rhai hynod o werthfawr ac ein nôd yma yn y Feithrin yw i greu naws croesawgar, cynhwysol a chynnes.

O brofiad, mae'r blynyddoedd cynnar yma yn hedfan, felly cofiwch i drysori pob eiliad a mawr obeithiwn ddatblygu perthynas glos wrth i ni rannu taith eich plentyn.

“Cyda'n gilydd yn gryfach”,  
Mrs C Rhisiart a staff y Feithrin

*A warm welcome to the family and community of Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School.*

*The big day has arrived, your child is embarking on their educational journey and we aim to make the transition from home to school as smooth as possible for all involved in the hope that this booklet will be beneficial and reassuring.*

*Your child's first experiences at school are extremely rewarding and our purpose here in the Nursery is to create a welcoming, inclusive and warm atmosphere.*

*From experience, these early years fly by, so please remember to treasure every moment and we greatly hope to develop a close relationship as we share your child's journey.*

*“Together Stronger”  
Mrs C Rhisiart and Nursery Staff*

# Pwy yw pwy? / *Who's who?*



**Prifathro/Headmaster**

Mr R Carbis



**Arweinydd Adran Dan 7 ac Athrawes Feithrin/Under 7's Section Leader & Nursery Teacher**

Mrs C Rhisiart



**Arweinydd Cwricwlwm/Curriculum Leader**

Miss A Hughes



**Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol/Additional Learning Needs Coordinator**

Mrs C Llwyd



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information



**Gweledigaeth Ysgol Groes-wen:** Gyda'n gilydd yn gryfach, bydd Ysgol Groes-wen yn sefydlu cymuned ysbrydoledig, cynnes a chroesawgar sydd yn dathlu Cymreictod gan ddatblygu amgylchedd cynhwysol a chynaliadwy. Bydd ein plant yn datblygu fel unigolion creadigol, hyderus, egwyddorol, uchelgeisiol ac ieithyddion mentrus!

**Groes-wen's School vision:** *Together stronger, Ysgol Groes-wen will establish an inspiring, warm and welcoming community that celebrates Welshness while developing an inclusive and sustainable environment. Our children will develop as creative, confident, principled, ambitious individuals and enterprising linguists!*



**Gweledigaeth Cwriwclwm Ysgol Groes-wen:** Yn Ysgol Groes-wen cerddwn law yn llaw ar ein taith. Datblygw'n unigolion sy'n teimlo balchder at eu Cymreictod, dinasyddion sy'n perthyn a chydweithio, dysgwyr chwilfrydig a chynhwysfawr ac yn gyfranwyr hyderus sy'n barod i fentro.

**Ysgol Groes-wen Curriculum Vision:** *At Ysgol Groes-wen we'll walk hand in hand on our journey. We develop individuals that feel pride in their heritage, citizens that feel they belong and are collaborative, enthusiastic and extensive learners and that are confident contributors that are ready to venture.*



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir:** Mae plant yn dysgu mwy yn eu pum mlynedd cyntaf nag ar unrhyw adeg arall yn eu bywyd. Yn y blynyddoedd cynnar rydyn ni'n gosod y sylfeini i'w helpu i wireddu pedair diben craidd Cwricwlwm i Gymru drwy gweithgareddau ymarferol, profiadau bywyd go iawn a cysyniadau sydd o bwys i'r uniogolion.

**Curriculum for funded not maintained nursery settings** *Children learn more in their first five years than at any other time in their lives. In the early years we are laying the foundations to help them realise the four purposes of a Curriculum for Wales through hands-on activities, real life experiences and concepts that matter to the individual.*

**Asesu:** Yn ystod wythnosau cyntaf y plant yn y Feithrin, byddwn ni'n eu hasesu drwy arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol ac hefyd drwy gyfres o weithgareddau strwythuriedig pwrpasol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn ein helpu ni i adnabod cryfderau a diddordebau unigolion yn ogystal ag unrhyw anghenion datblygiadol. Bydd yr asesiad hefyd yn cynnig camau addysgol nesaf unigolion. Byddwn yn ail ymweld â'r asesiad ar ddiwedd y flwyddyn addysgiadol er mwyn tracio cynnydd.

**Assessment:** *During the children's first few weeks in the Nursery, we will assess them through formal and informal observations and also through a series of appropriate structured activities. The information gathered will help us identify individuals' strengths and interests as well as any developmental needs. The assessment will also provide individuals' next educational steps. We will re-visit the assessment at the end of the informative year to track progress.*





# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

## Oriau ysgol Dosbarth Meithrin:

Sesiwn bore Iaith Ddeuol 9.00yb - 11.30yb

Sesiwn prynhawn Iaith Gymraeg 12.30yp -3.00yp

## *Nursery Class school hours:*

*Dual Language morning session 9.00am - 11.30am*

*Welsh Language afternoon session 12.30pm -3.00pm*

## Manylion cyswllt / *Contact details:*

[YsgolGroeswen@cardiff.gov.uk](mailto:YsgolGroeswen@cardiff.gov.uk)

<https://www.ysgolgroeswen.cardiff.sch.uk>

[Facebook](#)




**Manylion gollwng a chasglu disgyblion:** Mae'n bwysig eich bod yn dod â, ac yn casglu eich plentyn o glwyd y dosbarth ar amser. Cofiwch i roi gwybod i ni os bydd unrhyw newidiadau i drefniadau danfon a chasglu eich plentyn.

***Pupil drop-off and collection information:*** *It is important that you drop-off and collect your child from the class gate on time. Please be sure to let us know if there are any changes to your child's drop-off and pick-up arrangements.*





# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information



**Diogelwch:** Mae diogelwch eich plentyn yn flaenoriaeth i ni. Mae dyfais cloi awtomatig ar bob drws ac ni chaniateir mynedfa heb y ddyfais gywir. Mae gennym gynllun yn ei le os bydd argyfwng.

**Safety:** *The safety of your child is our priority. Each door is fitted with an automatic locking device and there will be no entry to anyone without a tab key. We have a plan in place in the event of an emergency.*



**Teithio:** Anogwn bawb i gerdded i'r ysgol os oes modd iddynt wneud. Nid oes modd parcio ar dir yr ysgol am resymau diogelwch, heblaw bod gennych fathodyn anabled. Caniateir parcio yn yr achosion hynny trwy drefniant â'r ysgrifennydd. Bydd trefniadau yn eu lle ar gyfer y gwasanaethau gofal gan 'Ladybirds a Cwtch'.

**Travel:** *We encourage everyone to walk to school if they can. There is no parking or dropping off point on school grounds for safety reasons, unless that you have a disability badge. Parking is allowed in that case by arrangement with the secretary. Arrangements will be made for the wrap around service provided by both 'Ladybirds' and 'Cwtch'.*



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**Cylch Meithrin Groes-wen:** Mae Cylch Meithrin Ysgol Groes-wen yn darparu gofal cofleidiol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant sydd yn mynychu sesiynau yn y Feithrin yn Ysgol Groes-wen, a hefyd yn derbyn ambell blentyn 2 mlwydd oed yn dibynnu ar niferoedd ar gael. Rydyn ni wedi cofrestru gydag Arolygaeth Gofal Cymru (AGC), ac yn rhan o'r Cynllun Gofal Plant ble bydd rhieni sydd yn gymwys yn medru derbyn hyd at 17.5 awr o ofal am ddim. Gofynnir i'r rhai sydd ddim yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant i dalu £15 am sesiwn bore (8:45yb - 11:45yp) a £13.75 am sesiwn prynhawn (12:30yp - 15:15yp). Mi fydd y Cylch Meithrin hefyd yn darparu Clwb Ar Ôl Ysgol i holl blant Ysgol Groes-wen o'r Feithrin i fyny 15:25yp - 18:00yh £12.50 y sesiwn.



**Cylch Meithrin Groes-wen:** *Ysgol Groes-wen's Cylch Meithrin provides wraparound care through the medium of Welsh for children attending sessions in Ysgol Groes-wen's Nursery, along with some 2-year-olds depending on numbers available. We are registered with Care Inspectorate Wales (CIW) and part of the Childcare Scheme where eligible parents will be able to receive up to 17.5 hours of care for free. Those who are not eligible for the Childcare Offer are asked to pay £15 for a morning session (8:45am - 11:45am) and £13.75 for an afternoon session (12:30pm - 15:15pm). The Cylch Meithrin will also provide an After School Club for all Ysgol Groes-wen pupils from Nursery upwards 15:25pm - 18:00pm for £12.50 per session.*

***Am fwy o wybodaeth ewch i wefan yr Ysgol neu cysylltwch:***

***For more information, please visit the School website or contact:***

**Arweinydd Cylch Meithrin Groes-wen / Cylch Meithrin Groes-wen's Leader**

Mrs A Evans [cylchmeithrin.groeswen@gmail.com](mailto:cylchmeithrin.groeswen@gmail.com) / 07958299994



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**Clwb brecwast:** Dechrau am 8yb. Plis e-bostiwch yr ysgol am fwy o wybodaeth. Plant oed Meithrin i fyny yn unig.




**Breakfast Club:** Starts at 8am. For more information please e-mail the school. Children of Nursery age upwards only.



**Taliadau:** Bydd modd talu am ginio ysgol, ymweliadau ac ati trwy'r Ap 'Parent Pay'. Bydd manylion cyfrif ParentPay rhieni newydd yn cael ei hanfon adref yn ystod yr wythnosau cyntaf. Cofiwch i wirio'r App yn gyson os gwelwch yn dda.

**Payments:** It will be possible to pay for school lunches, visits etc. via the Parent Pay App. ParentPay account details for new parents will be sent home in the first few weeks. Remember to check the App regularly please.



## **Clybiau gofal ar ôl Ysgol / After School Care:**

Am fwy o wybodaeth / For more information

Cylch Meithrin Groes-wen [cylchmeithrin.groeswen@gmail.com](mailto:cylchmeithrin.groeswen@gmail.com) / 07958299994

Ladybirds [Ladybirds Day Nursery - Danescourt, Llandaff | Cardiff | Facebook](#)

Cwtsh [Pentrebaen - Cwtch Childcare](#)



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

Gofynnwn i ddisgyblion Meithrin sy'n aros yn yr ysgol trwy'r dydd ddod a phe cyn bwyd iachus neu archebu cinio Ysgol [ar-lein trwy'r Ap ParentPay](#). *We kindly ask that Nursery children that stay in school all day bring their own healthy lunch box online through the ParentPay App.*

**Cinio ysgol:** Darperir cinio yn ddyddiol gan yr ysgol. Dyfeisiwyd y bwydlenni cinio gan ddiategwyr y Sir. Mae opsiynau llysieuol ar gael bob dydd. Arolygir y plant yn ystod yr awr ginio gan ein cymhorthyddion gwyh. Bellach mae pob pryd yn cael ei brynu ar-lein trwy'r Ap ParentPay. Gall rhieni hefyd rag-ddewis prydau eu plant ar y system hon.

**School lunch:** Lunches are provided daily by the school. The lunch menus have been devised by the County's dieticians. Vegetarian options are available daily. The children are supervised at lunchtime by our excellent supervisors. All meals are now purchased online through the ParentPay App. Parents can also preselect their children's meals on this system.

**Bocs bwyd:** Dyma ambell syniad i chi [Bocsys Bwyd GIG](#). Mae hi'n bwysig eich bod yn dweud wrthym os ydy'ch plentyn âg alergedd o unrhyw fath.



**Lunchbox:** Here are a few ideas for you [NHS Lunch box](#). It is important that you tell us if your child has an allergy of any kind.





# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**Diod:** Bydd angen potel o ddiod yn ddyddiol ar eich plentyn. Rydym yn eich annog i anfon dŵr yn unig gan ein bod yn cefnogi ymgyrrch Ysgolion Iach. Cofiwch i labeu'r botel gyda enw eich plentyn yn glir os gwelwch yn dda. Mae 1/3 pint o laeth buwch ar gael am ddim i'ch plentyn yn ddyddiol hefyd. Os oes alergedd laeth buwch gan eich plentyn mae croeso i chi ddarparu laeth arall iddynt yn wythnosol ond cofiwch i labeli'n glir.



**Drink:** *Your child will need a bottle of drink on a daily basis. We encourage you to send water as we support the Healthy Schools campaign. Remember to label the bottle with your child's name clearly please. 1/3 pint of cow's milk is also freely provided to your child daily. If your child has a cow's milk allergy please feel free to provide them with alternative milk on a weekly basis.*

## FIKA

**Byrbrydau:** Gofynnwn yn garedig i chi gyfrannu £1 yr wythnos i gefnogi byrbryd maethlon dyddiol eich plentyn. Bydd y cyfraniad hwn yn helpu ni i ddarparu amrywiaeth o opsiynau fel ffrwythau, llysiau, iogwrt neu gaws. Mae eich cefnogaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Diolch.



**Snacks:** We kindly request that you contribute £1 per week to support your child's daily nutritious snack. This contribution will help provide a variety of options such as fruits, vegetables, yogurts, or cheese. Your support is greatly appreciated. Thank you.



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information



**Gwisg ysgol:** Rydym yn annog y plant i wisgo gwisg ysgol bob dydd er mwyn meithrin ymdeimlad o berthyn ac i ennyn parch ac agweddau positif tuag at yr ysgol. Mae'r wisg Ysgol ar gael i'w phrynu o siop YC Sports yn yr Eglwys Newydd . Awgrymwn bod eich plentyn yn gwisgo esgidiau 'felcro' er mwyn ei helpu i wisgo'n annibynnol. Annwgwn i'r plant beidio gwisgo gemwaith i'r ysgol.

**School uniform:** *We encourage the children to wear uniform every day in order to nurture a feeling of belonging, and to kindle respect and positive attitudes towards the school. The School uniform is available to purchase from the YC Sports store in Whitchurch. We suggest your child wear 'velcro' shoes to help them dress independently. We encourage pupils not to wear jewellery in school.*

**YC Sports(Schoolwear), 5 Penlline Road, Whitchurch, Cardiff, CF14 2AA. 02920693653**



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**Enw ar bopeth:** A fyddwch gystal â sicrhau bod enw eich plentyn wedi labelu'n glir ar bob darn o ddilledyn/offer gan gynnwys cotiau, bagiau, poteli, potiau ac esgidiau ayb. Mae'n debygol bydd plant yn cymysgu pethau o bryd i'w gilydd! Rhowch wybod os oes rhywbeth yn mynd ar goll ac fe wnawn bob ymdrech i'w ddychwelyd cyn gynted â phosib. Yn yr un modd, os bydd eich plentyn yn dychwelyd adref â eiddo plentyn arall, a fyddwch gystal â'i ddychwelyd i'r ysgol, os gwelwch yn dda. Diolch.

**Label everything:** Please ensure that your child's name is clearly labelled on every piece of garment/equipment including coats, bags, bottles, pots and shoes etc. It is probable that children will misplace belongings from time to time! Please let us know if something is misplaced and we will make every effort to retrieve it as soon as possible. Similarly, if your child returns home with another child's belongings, please return them to school. Thank you.

**Dillad sbar:** Mae ambell ddamwain yn mynd i ddigwydd ond peidiwch â phoeni, rydym wedi hen arfer! Byddwn yn delio â rhain mewn modd sensitif gan ddilyn polisi'r Ysgol. Gofynnwn yn garedig i'r plant ddod ag unrhyw ddillad sbâr efo nhw mewn bag i'r ysgol yn ddyddiol os gwelwch yn dda. Peidiwch ag anghofio sanau ac esgidiau sbâr! Cofiwch ysgrifennu enw eich plentyn ar bob dilledyn sbâr. Bydd dillad budr eich plentyn yn cael ei roi mewn bag plastig i fynd adref. Os bydd eich plentyn yn cael menthyg dillad gan yr ysgol, gofynnwn yn garedig i chi ddychwelyd y dillad wedi eu golchi cyn gynted ag sy'n bosibl.



**Spare Clothes:** Accidents will happen but don't worry, we're used to it! We will deal with these sensitively in accordance with our School policy. We kindly ask the children to bring any spare clothes with them in a bag to school on a daily basis please. Don't forget spare socks and shoes! Remember to label each spare garment clearly. Your child's dirty clothes will be put in a plastic bag to take home. If your child will be borrowing clothes from school, we kindly ask that you return the clean clothes as soon as possible.



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**Meddyginiaeth / Salwch:** Os ydy'ch plentyn yn absennol a wnewch chi ffonio'r ysgol i roi gwybod cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda. Er ein bod yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da, mae'n well i gadw eich plentyn adref os yw'n sâl. Os yw'ch plentyn yn sâl yn yr ysgol, bydd aelod o staff yn cysylltu â chi. Mae'n bwysig fod pob rhif cyswllt yn gywir. Byddem yn ddiolchgar petaech yn ceisio amseru dosau meddyginiaeth o gwmpas oriau'r ysgol ond os oes angen rhoi meddyginiaeth i'r plant yn ystod oriau ysgol bydd angen i chi lenwi ffurflen ganiatâd.



**Medication / Illness:** *If your child is absent please call the school to inform us as soon as possible. While we stress the importance of good attendance, it's best to keep your child home if they're feeling unwell. If your child is ill at school, you will be contacted by a member of staff. It is important that all contact numbers we have are correct. We would be grateful if you would try to time medication doses around school hours but if medication needs to be administered to the children during school hours you will need to complete a consent form.*



**Llau pen:** Byddwch yn wylidwrus o lau pen, a rhowch wybod i ni yn syth os dewch ar eu traws. Mae awgrymiadau effeithiol iawn yma llau pen

**Head lice:** Be wary of head lice, and let us know immediately if you come across them. There are very effective tips here for head lice



# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**Cyfathrebu:** Rydym yn awyddus i weithredu polisi 'drws agored' yng Ngroes-wen a byddwn yn gwneud ein gorau i ddatrys unrhyw fater sy'n codi. Felly, os ydych yn dymuno siarad am rywbeth perthnasol, anfonwch nodyn neu ffoniwch y swyddfa, ac mi drefnwn amser sy'n gyfleus i bawb mor gloi a phosib. Cofiwch hefyd i gadw llygad ar wefan a thrydar yr Ysgol ar gyfer y newyddion / gwybodaeth ddiweddaraf.



**Communication:** *We are keen to implement an 'open door' policy in Groes-wen and will do our very best to resolve any issue that arises. If you wish to talk about something relevant, please send a note or call the office, and we will arrange a time that is convenient for everyone as soon as possible. Also, please remember to keep an eye on the school website and Twitter account for the latest news/information.*

**Dathlu Doniau:** Er mwyn gwella'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol a chefnogi twf academaidd pob disgybl, byddwn yn cynnal dathliad ar ddiwedd pob tymor i rieni gydnabod cyflawniadau eu plant.



**Celebrating Talent:** *To improve the partnership between home and school and support the academic growth of every pupil, we will host a celebration at the end of each term for parents to participate in recognising their children's achievements*

# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**Darllen:** Mae'n holl bwysig i annog ein disgyblion ifanc i ddatblygu sgiliau darllen a gwrando er mwyn datblygu sgiliau ieithyddol a chyfathrebu hyderus. Canolbwyntiwn ar ddatblygu'r sgiliau yma wrth seilio gweithgareddau hwylus ar gynlluniau ffoneg synthetig a strategaethau tebyg i 'Pie Corbett' a 'Pori Drwy Stori'. Pwysleisiwn mai datblygu dealltwriaeth a MWYNHAD yw ein hethos fel ysgol.



**Reading:** *It is vital to encourage our young pupils to develop reading and listening skills in order to develop confident language and communication skills. We focus on developing these skills while basing activities on synthetic phonics schemes and strategies similar to 'Pie Corbett' and 'Pori Drwy Story'. We emphasise that developing understanding and ENJOYMENT is our ethos as a school.*

**Cymreictod:** Rydym yn ceisio sicrhau bod pawb yn Ysgol Gynradd Groes-wen yn ymwybodol o'n treftadaeth Gymreig ni ac yn defnyddio 'Cymraeg' yn yr ysgol, yn ein cymuned ac yn y cartref gyda hyder a balchder.



**Welshness:** *We try to make sure that everyone in Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School are aware of our Welsh heritage and use 'Cymraeg' in school, out in the community and at home with confidence and pride.*

# Gwybodaeth Cyffredinol / General Information

**ADY:** Mi fydd yr athrawon yn gweithio yn agos iawn gyda'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd eu llawn potensial. Bydd y CADY yn gweithio gyda phlant ar ymyrraethau lle bod angen.



**ALN :** *Class teachers will work closely with the Additional Learning Needs coordinator to ensure that all pupils reach their full potential. The ALNCo will work with individuals on targeted interventions where necessary and monitor progress.*



**Dysgu yn yr awyr agored:** Byddwn yn dysgu yn yr awyr agored ym mhob tywydd a hynny'n wythnosol! Yn ogystal, rydym wedi cynllunio sesiynau tymhorol yn ein coedwig leol, lle byddwn yn ymgysylltu â natur ac yn archwilio ein synhwyrau. Er mwyn sicrhau cysur a diogelwch eich plentyn yn ystod y sesiynau hyn, gofynnwn yn garedig i'ch plentyn ddod ag esgidiau glaw, cot law yn ogystal â throwsus oferôls mewn bag plastig wedi'i labelu'n glir. Bydd y bag hwn yn cael ei gadw yn yr ysgol a'i ddefnyddio pryd bynnag y bo angen.

**Outdoor learning:** *We are committed to conducting lessons outdoors every week, regardless of the weather conditions! Additionally, we have planned termly sessions in our nearby woodland area, where we will engage with nature and explore our senses. To ensure your child's comfort and safety during these sessions, we politely ask that they bring a plastic bag labelled with their name, which should contain a pair of rain boots, a raincoat, and waterproof trousers. This bag will be kept at school and used whenever necessary.*



# Sut i helpu eich plentyn? / *How you can help your child?*

Mae'n bwysig bod y cam o'r cartref i'r ysgol yn digwydd mor naturiol a phosib. Bydd eich plentyn yn gallu dod i adnabod holl staff y feithrinfa yn ystod sesiynau blasu cyn eu diwrnod cyntaf swyddogol. Yn ogystal, byddwn yn trefnu sesiynau 'Galw heibio' er mwyn i chi weld yr ystafell ddosbarth a'r ardal allanol a chael cyfle i sgwrsio gyda'r athrawes ddosbarth. Bydd y plant yn cychwyn yn y Feithrinfa mewn system hwnt-gychwyn (stagger start), er mwyn i ni allu rhoi sylw digonol i'r plant wrth iddyn nhw ddechrau cyfarwyddo eu hunain gyda'r safle, y staff a'r drefn. Cofiwch, bydd dechrau'r ysgol yn brofiad hapusach i'ch plentyn os yw'n gyfarwydd â phlant eraill, yn gallu gwneud ffrindiau a rhannu teganau. Siaradwch yn frwdfrydig ac yn gadarnhaol a'ch plentyn am fynd i'r ysgol.

*It is crucial for a smooth transition from home to school to take place. Your child will be able to get acquainted with all Nursery staff during taster sessions prior to their official first day. Furthermore, we will organise 'Drop-in' sessions where you can explore the school premises, the classroom, and the outdoor area, as well as interact with the class teacher. Children will then enter the Nursery with a staggered start system to ensure that each child receives the necessary attention as they familiarize themselves with the class, staff, and new routine.*

*Keep in mind that your child's start at school will be more enjoyable if they have already met other children, made friends, and are comfortable sharing toys. It is encouraged to speak positively and excitedly to your child about this new beginning.*



# Helpu eich plentyn i ffynnu / *Help your child grow*

Beth am anog eich plentyn i ddatblygu sgiliau sylfaenol ymhellach dros gwyliau'r Haf i...

*Why not encourage your child to develop basic skills further over the Summer holidays to...*

Fwyta wrth ford  
amser bwyd

*Eat at the table  
during meal time*

Ymarfer,adnabod  
ac ysgrifennu enw

*Recognise and write  
their name*

Edrych ar raglenni  
Cymraeg

*Watch Welsh  
programmes*

Olchi a sychu  
dwylo

*Wash and dry their  
hands*

Ddefnyddio'r tŷ  
bach yn  
annibynnol

*Use the toilet  
independently*

Wisgo esgidiau,  
sanau a chôt

*Wear their shoes,  
socks and coat*

Ymarfer adnabod  
ei eiddo

*Practice  
recognising their  
belongings*



# Amgylchedd / Environment

Agorwyd yr ysgol ar Fedi 7fed 2023. Ysgol Gynradd Groes-wen yw'r model Iaith ddeuol gyntaf yng Nghymru. Dim ond ychydig o blant Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 oedd i ddechrau, ond bydd lle i hyd at 420 o blant 4 -11 oed yn ogystal a 96 plentyn yn y Feithrin. Mae'r Ysgol yn llawn adnoddau a chyfarpar newydd sbon gyda'r pwyslais ar ddefnyddio adnoddau naturiol a lliwiau niwtral. Cynlluniwyd y dosbarthiadau i fod yn ystafelloedd agored, olau gyda chilfach gotiau a thoiledau ar wahân yn benodol ar gyfer plant y dosbarth. Y tu allan, mae ardal ddysgu benodol gyda chanopi a llawr meddal sydd yn galluogi'r plant i chwarae a dysgu yn yr awyr agored ym mhob tywydd. Yn yr Adran Dan 7 ein nod yw darparu ar gyfer anghenion y plentyn ifanc trwy roi'r cyfle iddo/iddi ddatblygu sgiliau a medrau trwy weithgareddau ffocws a chwarae a dysgu mewn amgylchedd sy'n eu sbarduno, sy'n ddiogel, sy'n rhoi sicrwydd ac sy'n un hapus. Bydd amgylchedd o'r fath yn meithrin datblygiad emosiynol, esthetig, corfforol, cymdeithasol a deallusol y plentyn. Paratoir gwahanol ardaloedd o fewn y dosbarth er mwyn hybu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr chwilfrydig sydd yn magu annibyniaeth.

The school was opened on September 7th 2023. Groes-wen Primary School is the first dual language model in Wales. There were initially only a few Nursery, Reception, Year 1 and Year 2 children, but there will be room for up to 420 children aged 4 -11 and 96 children in Nursery. The School is full of brand new resources and equipment with the emphasis on the use of natural resources and neutral colours. Each class has been designed to be an open, light room with separate cloak room and toilets specifically for the children of the class.

Outside, there is a dedicated learning area with a canopy and soft floor that allows the children to play and learn outdoors in all weathers! In the Under 7's Department we aim to cater for the needs of the young child by giving him/her the opportunity to develop skills through play and focused activities whilst learning in a stimulating, safe, reassuring and happy environment. Such an environment nourishes the emotional, aesthetic, physical, social and intellectual development of the child. Different areas within the class are prepared to encourage the pupils to be curious learners who gain independence.

**Diwrnod Ysgol / School day**

**Sesiwn Bore Iaith Ddeuol / Morning session Dual Language 9yb - 11:30yp**

**Sesiwn Prynawn Iaith Gymraeg / Afternoon session Welsh language 12:30yp - 3yp**



# Diwrnod cyntaf eich plentyn / Your child's first day

Mae dechrau ysgol yn gam mawr ym mywyd plentyn ac mae diwrnod cyntaf eich plentyn yn yr ysgol yn un i'w drysori. Fe wnawn ni bob ymdrech i sicrhau ei fod yn un hwylus a hapus i bawb. Mi fydd plant y dosbarth Meithrin yn dechrau fesul dipyn, a hynny er mwyn rhoi cyfle iddynt ymgartrefu ac ymglyfarwyddo â gwynebau newydd yn ogystal â'u hamgylchedd dysgu newydd. Bydd hefyd yn gyfle gwerthfawr i rieni a staff ddod i adnabod ei gilydd. Gofynnwn yn garedig i chi hebrwng eich plentyn i glwyd mynedfa'r dosbarth Meithrin lle bydd aelodau staff yno, i'ch cyfarch. Yna, bydd yr athrawes ddosbarth ynghyd â chynorthwydd y dosbarth ar gael i arwain eich plentyn i'r ystafell ddosbarth. Mae'n bosib y bydd rhai o'r plant yn ddagreuol wrth i rieni eu gadael am y tro cyntaf os felly bydd y staff yn setlo'r plant a gyda amser fe ddaw eich plentyn i hen arfer â ffarwelio. Os teimlwn fod eich plentyn yn parhau i ofidio ar ôl cyfnod o amser, mi gysylltwm ni â chi. Bydd llu o weithgareddau deiniadol wedi eu paratoi, a bydd rhyddid i'r plant chwarae a chrwydro o amgylch y dosbarth yn ystod eu sesiwn cyntaf. Pan fyddwch yn casglu eich plentyn ar ddiwedd y sesiwn, gofynnwn eich bod yna wrth glwyd y dosbarth Meithrin. Byddwn yn trosglwyddo plant yn saff i'w rhiant / gwarcheidwad bob yn un. Cofiwch roi gwybod os oes rhywun gwahanol yn casglu eich plentyn os gwelwch yn dda. Diolch.

*Starting school is a big step in a child's life and your child's first day of school is one to treasure. We will make every effort to ensure that it is a joyful and happy one for everyone. The children in the Nursery class will start with a few at a time, to give them a chance to settle and familiarise themselves with new faces as well as their new learning environment. It will also be a valuable opportunity for parents and staff to get to know each other. We kindly ask that you escort your child to the entrance gate of the Nursery class where members of staff will be there, to greet you. The classroom teacher along with the class assistant will then be available to guide your child into the classroom. Some of the children may become teary as parents leave them for the first time and if so the staff will settle the children and with time your child will get used to saying goodbye. If we feel that your child continues to be upset after a period of time, we will contact you. A host of engaging activities will be prepared, and children will be free to play and wander around the class during their first session. When you collect your child at the end of the session, we kindly ask everyone to stand by the Nursery gate. We will transfer children safely to their parent / guardian one at a time. Please let us know if someone different is collecting your child. Diolch.*